

# SUT MAE GWNEUD SALAD CYW IÂR?

gyrfaoedd  
**BLASUS**  
mewn bwyd a diod

CYMRU

...Nid yw'n broses mor syml ag y byddech yn ei feddwl...

Mae **FFERMWYR** yn buddsoddi amser, arian ac arbenigedd mewn cynhyrchu cywion ieir i ni eu bwyta. Mae **SWYDDOGION LLES ANIFEILIAID** yn gwirio'n ofalus bod y dofednod yn cael eu ffermio a bod y cig yn cael ei gynhyrchu i'r safonau uchaf posibl cyn i'r cywion ieir gael eu paratoi a'u coginio mewn cyfleusterau cynhyrchu, gan ddefnyddio offer wedi'i ddylunio a'i gynnal a'i gadw gan **BEIRIANWYR Y DIWYDIANT' BWYD** gan ddefnyddio prosesau a ddatblygwyd gan **DECHNOLEGWYR PROSESU BWYD**. Mae cynydau salad ffres yn cael eu cynhyrchu gan **DYFWYR** i safonau sydd wedi'u llunio, eu goruchwyllo a'u gwirio gan **AGRONOMEGWYR** a'u cynaeafu gan ddefnyddio offer wedi'i ddylunio gan **BEIRIANWYR AMAETHYDDOL**. Mae **PRYNWYR** yn dewis y cynydau gora sy'n cael eu cynaeafu pan fo'r ansawdd ar ei orau, ac yna maent yn cael eu hoeri er mwyn eu cadw'n ffres. Mae'r salad ffres a'r cig cyw iâr yn cael eu hanfon at y gwneuthurwr salad, lle byddant yn cael eu gwirio gan y **TÎM ANSAWDD** er mwyn sicrhau eu bod o'r ansawdd iawn. Mae dresin blasus yn cael eu datblygu gan **WYDDONWYR A THECHNOLEGWYR BWYD** sy'n gweithio gyda'r **TÎM DATBLYGU CYNNYRCH**, sydd yn creu ryseitiau newydd gyda **MAETHEGWYR**. Mae'r Datblygwyr Cynnyrch hefyd yn gweithio gydag **YMCHWILWYR PECYNNU BWYD** i gyflwyno'r salad cyw iâr mewn modd sy'n apelio at gwsmeriaid posibl. Mae'r **RHEOLWR CYNHYRCHU** yn gweithio gydag **ARWEINWYR TÎM** i sicrhau bod y **GWEITHWYR PROSESU** yn paratoi'r salad cyw iâr yn y modd cywir. Mae'r gwaith paratoi yn cael ei fonitro gan **DIMAU ANSAWDD** sy'n gweithio i'r **RHEOLWR SICRHAU ANSAWDD** i sicrhau bod gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd da'n cael eu cynnal. Mae'r holl broses yn cael ei reoli gan y **RHEOLWR TECHNEGOL**. Yna bydd yr adran **GWERTHU A MARCHNATA** yn defnyddio'r **ADRAN TECHNOLEG GWYBODAETH** i nodi pryd y bydd angen i'r salad cyw iâr gael ei gludo i'r siop gan y **TÎM DOSBARTHU** gan ddefnyddio **ARBENIGWYR LOGISTEG AR GYFER CYNNYRCH WEDI'I OERI**. Bydd hyn fel arfer yn digwydd ar y diwrnod y cafodd ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn ffres, yn iach ac yn flasus pan fydd yn cyrraedd eich basged siopa!

## A CHITHAU'N MEDDWL MAI DIM OND YCHYDIG O GYW IÂR A LETYS OEDD ANGEN!

Er mwyn darganfod mwy am y math o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y Diwydiant Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod, ewch i:

[TASTYCAREERSWALES.ORG.UK](http://TASTYCAREERSWALES.ORG.UK)

Dilynwch ni ar:

